Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach: 15 Tachwedd 2021

Crynodeb o gyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach drwy gynhadledd fideo ar 15 Tachwedd 2021.

Cyhoeddwyd gyntaf: 13 Ionawr 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 13 Ionawr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-15-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


[Yn bresennol](#)

[Croeso a chyflwyniadau](#)

[Cytundebau masnach llywodraeth y DU](#)

[Gyngor Cydweithredol y Gwlff](#)

[Sylwadau i gloi](#)


# Yn bresennol

Cadeirydd y cyfarfod: Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething AS

Aelodau a rhanddeiliaid y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach:

- Aileen Burmeister, Cymru Masnach Deg
- Andy Richardson, Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
- Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru
- Catherine Smith, Hybu Cig Cymru
- Henry Clarke, Acuity Law
- Nick Pearce, Object Matrix
- Yr Athro Nick Pidgeon, Prifysgol Caerdydd
- Paul O'Donnell, Institute of Export and International Trade
- Rachael Blackburn, Awyrofod Cymru
- Richard Newton-Jones, Snowdonia Cheese
- Richard Rumbelow, Make UK
- Robert O'Neil, Fforwm Modurol Cymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-15-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Robin Davies, Magstim
- Sarah Williams-Gardener, FinTech Wales
- Simon Hall, Nodor International

## Croeso a chyflwyniadau

Agorodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, y cyfarfod drwy ddiolch i aelodau'r grŵp ac amlinellu eu rôl wrth helpu i lunio polisi masnach Llywodraeth Cymru drwy roi mewnbwn arbenigol ar sut y gallwn fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd, a lleihau'r bygythiadau, y gallai cytundebau masnach rydd eu cynnig i Gymru ac economi Cymru.

Amlinellodd y Gweinidog yr achos dros fasnach ryngwladol a chydnabod y manteision y gall cytundebau masnach rydd newydd eu cynnig i Gymru. Nododd hefyd ei bod yn hanfodol sicrhau bod Llywodraeth y DU yn deall na ddylai cytundebau masnach rydd newydd danseilio gallu Llywodraeth Cymru i ddilyn ei huchelgeisiau ei hun na rheoleiddio'n ddomestig, a rhaid i gytundebau beidio ag arwain at enillion ar gyfer rhannau eraill o'r DU ar draul Cymru.

Amlinellodd y Gweinidog fod yn rhaid i unrhyw drafodaethau masnach â gweddill y byd fod yn gwbl gydnaws â'r cytundeb sydd gennym yn awr gyda'r UE ac na ddylent niweidio perthynas fasnachu'r DU/UE. Ni ddylai unrhyw gytundeb masnach newydd arwain at sefyllfa annheg mewn meysydd fel lles anifeiliaid a'r amgylchedd drwy roi mantais economaidd i fewnforwyr bwyd, sy'n bodloni safonau lles anifeiliaid is, yn ein marchnad o'i gymharu â'n cynhyrchwyr ein hunain.

## Y diweddaraf am drafodaethau cytundebau masnach Llywodraeth y DU

Rhoddodd Cyfarwyddwr Llywodraeth Cymru drosolwg o'r gwaith hyd yma ynghylch cytundebau masnach rydd Llywodraeth y DU, gan gynnwys y trafodaethau sydd wedi dod i ben, y rhai sydd wedi dechrau a'r rhai sydd ar fin

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-15-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dechrau. Pwysleisiwyd bod Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ac yn cyfrannu at drafodaethau ar bolisi masnach ryngwladol a thrafodaethau masnach.

## Trafodaeth Bord Gron ar Gyngor Cydweithredol y Gwlff (GCC)

Cafwyd trafodaeth bord gron i ddilyn a oedd yn canolbwyntio ar Alwad Llywodraeth y DU am Fewnbwn ar y GCC wedi'i rannu'n dri phwnc:

- Allforio a mewnforio: cyfleoedd a rhwystrau
- Newid Hinsawdd a'r amgylchedd: cyfleoedd a rhwystrau
- Cydraddoldeb a hawliau dynol

Roedd y trafodaethau'n cwmpasu

### Allforio a mewnforio: cyfleoedd a rhwystrau

- Lleihau tariffau
- Symleiddio gweithdrefnau tollau ar draws y gwledydd ar wahân yn y GCC
- Pwysigrwydd tegwch yn y farchnad i fusnesau a sectorau Cymru
- Heriau technegol presennol a wynebir megis Rheolau Tarddiad ac eglurder ar delerau talu a thrwyddedurheoleiddio.
- Cyfleoedd yn y GCC i fusnesau Cymru
- Cydnabod a derbyn cymwysterau proffesiynol
- Effaith a chyfleoedd i'r sector Addysg Uwch yng Nghymru
- Llywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid i nodi meysydd o fantais gystadleuol a sicrhau bod cwmnïau'n barod i fasnachu gyda'r GCC.

### Newid Hinsawdd a'r amgylchedd: cyfleoedd a rhwystrau

- Trafodwyd cyfleoedd ar gyfer allforion, gan gynnwys allforio arbenigedd a thechnoleg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-15-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Hawliau dynol a chydraddoldeb

- Tynnwyd sylw at y ffaith bod Strategaeth Ryngwladol Cymru yn nodi y dylid cynnwys lleisiau menywod bob amser.
- Cyflwynwyd awgrymiadau gan gynnwys asesiad llawn o'r effaith ar sail rhyw o'r cytundeb GCC arfaethedig ac ystyriwyd cadarnhau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW).

# Sylwadau i gloi

Daeth y Gweinidog â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r rhai a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau eang i'r trafodaethau. Bydd y grŵp yn cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-15-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae’r ddogfen hon yn gopi o’r dudalen we **Cyfarfod y Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach: 15 Tachwedd 2021** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-15-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-y-grwp-cynghori-ar-bolisi-masnach-15-tachwedd-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.